Asesiad Effaith Integredig Cryno
Fersiwn un, dyddiad: 20/05/2025

# Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 202[X]

# ADRAN 1

**Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?**

Ers i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau") ddod i rym, bu rhai newidiadau i ganllawiau deietegol y DU ar sail argymhellion gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar y Rheoliadau diwygiedig ar gyfer ysgolion cynradd a'r Canllawiau Statudol perthnasol sy'n nodi pa fwyd a diodydd y gellir eu cynnig mewn ysgolion rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025. Y bwriad yw gosod y Rheoliadau ym mis Rhagfyr 2025, ac iddynt ddod i rym ym mlwyddyn ariannol 2026-27.

Ymgynghorir hefyd ar Ganllawiau drafft ar gyfrifoldebau i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025, a chaiff fersiwn annibynnol derfynol ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025.

Gwneir cais ehangach am dystiolaeth rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025 i gefnogi'r gwaith parhaus i ddiweddaru'r Rheoliadau ar gyfer ysgolion uwchradd, ond ni chaiff y gwaith hwn ei gwblhau yn ystod tymor y Senedd hon.

**Amcan Polisi**

Mae Cymru yn arwain y ffordd yn y DU o ran darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Mae'r ymyriad pwysig hwn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi plant ac achosion o blant yn mynd heb fwyd, yn helpu dysgwyr i gyflawni, ac yn cyfrannu at iechyd gwell, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig:

- Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd.
- Llaeth am ddim ac am bris gostyngol mewn ysgolion.
- Brecwast am ddim i ddisgyblion cynradd.
- Prydau ysgol am ddim i'r disgyblion uwchradd sydd eu hangen fwyaf.

Yn ychwanegol at hynny, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth prydau â thâl mewn ysgolion uwchradd.

Fodd bynnag, ar sail adroddiad Gordewdra yng Nghymru, gwyddom y canlynol:

- Mae un o bob pedwar o blant oedran derbyn yn dechrau'r ysgol yn byw gyda gordewdra neu bwysau gormodol

- Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol uwch yn wynebu mwy o broblemau pwysau.
- Nid yw deietau llawer o blant yn dilyn yr argymhellion cenedlaethol.

Er bod llawer o ffactorau yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd plant, mae tystiolaeth yn dangos bod [1]safonau maeth cadarn, a roddir ar waith fel rhan o ddull ysgol gyfan, yn gallu gwella arferion deietegol yn sylweddol. Mae atgyfnerthu'r gofynion hyn yn gam hollbwysig i sicrhau bod bwyd mewn ysgolion yn helpu i lywio ymddygiadau bwyta'n iach gydol oes ac yn gwella canlyniadau iechyd a deilliannau addysg.

Mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dangos y gall prydau ysgol wneud y canlynol:

- Codi cyflawniad addysgol.
- Helpu i ddatblygu arferion bwyta'n iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Mynd i'r afael ag achosion o blant yn mynd heb fwyd a thlodi plant.
- Gwella sefyllfa ariannol teuluoedd.

Gall prydau ysgol gyfrif am hanner y bwyd y mae plentyn yn ei fwyta bob dydd yn ystod yr wythnos (brecwast a chinio). Rydym am i bob dysgwr ddeall pwysigrwydd deiet maethlon ac effaith ei ddewisiadau ar ei iechyd a'i lesiant corfforol, a datblygu ymddygiadau cadarnhaol ar sail gwybodaeth sy'n gwella ei allu i gyflawni, ei hwyliau cyffredinol, a'i lefelau egni.

Felly, mae diweddaru'r Rheoliadau yn cefnogi ein nod o greu "Cymru Iachach" – cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn ffynnu a lle mae'n dod yn haws gwneud dewisiadau iachach.

Mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau diwygiedig arfaethedig yn seiliedig ar argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU – ac maent wedi'u datblygu ar y cyd ag ysgolion, cyrff llywodraethu, arlwywyr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, deietegwyr, Estyn ac academyddion – gan adlewyrchu eu dealltwriaeth o safbwyntiau rhieni a dysgwyr yn eu cymunedau lleol lle bo modd er mwyn sicrhau bod bwyd iach ar gael yn yr ysgol i bob plentyn yng Nghymru.

Nod ein dull diwygiedig yw:

- Helpu pob plentyn i gael y bwyd sydd ei angen arno i ddilyn deiet iach, gan gynnwys plant ag anghenion deietegol arbennig neu feddygol.
- Darparu dognau sy'n briodol i oedran er mwyn lleihau gwastraff bwyd.
- Helpu ysgolion, arlwywyr a phartneriaid i roi'r gofynion newydd hyn ar waith.
- Cydbwyso bwydydd iachach â chadw hoff fwydydd yn yr ysgol.

---

[1] Anderson, M.L., Gallagher, J. a Ritchie, E.R. (2018) School meal quality and academic performance. Journal of Public Economics, 168, tt.81-93.

- Nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion a'u helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon.

<u>Ysgolion Cynradd</u>

Mae'r cam hwn o'r gwaith yn canolbwyntio ar ddiweddaru'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol ategol ar gyfer ysgolion cynradd. Diweddaru'r Rheoliadau i'w cysoni'n agosach ag argymhellion deietegol cyfredol y DU yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r bwriad polisi i helpu plant i gael y bwyd a'r diodydd sydd eu hangen arnynt i ddilyn deiet iach a gwireddu eu potensial, gan gynnwys y rhai ag anghenion deietegol arbennig neu sydd wedi'u rhagnodi'n feddygol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith datblygu polisi sydd ei angen i adolygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau cyfredol, sefydlwyd grwpiau arbenigol drwy ddull Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Adolygodd y grwpiau hyn y safonau maeth a'r gofynion cyfredol o ran bwyd a diod ar gyfer ysgolion cynradd ar sail argymhellion deietegol y DU. Gwnaethant hefyd ystyried y canllawiau cyfredol sy'n helpu i hybu bwyta ac yfed yn iach, gan fyfyrio ar arferion gorau a sut y gellid diffinio rolau a chyfrifoldebau yn gliriach.

Er bod y ffocws ar sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau, ystyriodd y grwpiau hefyd y gallu i gynnig darpariaeth bwyd mewn ysgolion yn y dyfodol a nifer y plant a fydd yn manteisio ar y ddarpariaeth honno, yn ogystal â'r effaith y gallai hyn ei chael ar gynaliadwyedd a hyfywedd gwasanaethau bwyd ysgolion yng Nghymru. Bu gwaith y grŵp yn fodd i lywio'r rheoliadau bwyd mewn ysgolion cynradd drafft diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a'r broses o ddrafftio'r Canllawiau Statudol ategol.

Mae newidiadau arfaethedig allweddol yn cynnwys:

- Cynnig mwy o ffrwythau a llysiau er mwyn helpu plant yng Nghymru i fwyta pump y dydd.
- Darparu mwy o garbohydradau startshlyd am fod tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant yng Nghymru yn bwyta digon o ffeibr.
- Cyfyngu ar fwydydd crwst, pwdinau a nwyddau pob wedi'u melysu, a bwydydd wedi'u ffrio yn seiliedig ar y cyngor deietegol diweddaraf.
- Teilwra meintiau dognau yn ôl ystodau oedran er mwyn helpu i leihau gwastraff bwyd.
- Cynnig llai o gig wedi'i brosesu a chyfyngu ar ddewisiadau wedi'u prosesu yn lle pysgod a chig a all gynnwys llawer o halen a braster dirlawn.
- Diogelu cig coch yn gymedrol.
- Gwahardd diodydd llawn siwgr, sy'n gysylltiedig â gordewdra a phydredd dannedd.

Ar y cyfan, mae'r cyfleoedd i'r polisi hwn leihau anghydraddoldebau yn dibynnu i raddau helaeth ar nifer y plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i ddeall ymddygiadau a allai effeithio ar y ddarpariaeth yn well a nodi rhwystrau a chyfleoedd ar lefel leol, er mwyn helpu i'w rhoi ar waith yn effeithiol ac yn deg.

Ysgolion Uwchradd

Mae gwaith helaeth yn cael ei wneud i adolygu'r Rheoliadau ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r cyd-destun yn wahanol i'r hyn a welir mewn ysgolion cynradd gan mai bwydydd llaw, cyflym a ddarperir yn ystod yr egwyl bore ac amser cinio yw'r gwasanaeth bwyd yn bennaf. Mae angen dull gweithredu gwahanol ar gyfer ysgolion uwchradd, ynghyd â chymorth byrdymor er mwyn helpu i wella'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd, ac mae angen rhagor o ddata ar arferion bwyta er mwyn deall yn iawn ble y gellir cael yr effaith fwyaf er mwyn gweithio tuag at ddarpariaeth iachach dros y tymor canolig a'r hirdymor. Caiff y gwasanaeth bwyd ei lywio gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- Plant yn dod i'r ysgol yn llwglyd am nad ydynt wedi cael brecwast.
- Plant nad ydynt am aros tan amser cinio i fwyta.
- Cyfleoedd cyfyngedig i eistedd a bwyta pryd oherwydd cyfyngiadau o ran maint ardaloedd/mannau bwyta.
- Amseroedd cinio byrrach lle mae amser i fwyta a chiwiau hir am wasanaeth yn cystadlu ag amser i gymdeithasu.
- Amrywiaeth eang o ddewisiadau yn ystod yr egwyl bore ac amser cinio y gellir eu prynu mewn cyfuniadau diderfyn sy'n ei gwneud hi'n anodd taro cydbwysedd o ran maeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Rheoliadau ar gyfer ysgolion uwchradd drwy gasglu rhagor o wybodaeth a data, yn ogystal ag ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol.  O ystyried ein dealltwriaeth o'r gynulleidfa, a'r pwys y mae pobl ifanc yn ei roi ar ymreolaeth o ran dewisiadau bwyd, mae angen mwy o amser arnom i glywed safbwyntiau pobl ifanc am fwyd mewn ysgolion uwchradd. Byddwn yn gwneud cais am dystiolaeth ar fwyd mewn ysgolion uwchradd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025. Fodd bynnag, ni chaiff Rheoliadau diwygiedig ar gyfer ysgolion uwchradd eu gosod yn ystod tymor y Senedd hon. Bydd y Rheoliadau cyfredol a'r Canllawiau ategol ar gyfer ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn gymwys.

Hybu bwyta'n iach: Canllawiau cliriach ar gyfrifoldebau

Fel rhan o'r cam hwn o'r gwaith, rydym hefyd wedi diweddaru canllawiau yn ymwneud â hybu bwyta ac yfed yn iach. Nod hyn yw:

- Diffinio dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion o ran hyrwyddo bwyta'n iach yn glir
- Rhoi enghreifftiau ymarferol o'r ffyrdd y gall ysgolion hyrwyddo arferion bwyta'n iach yn effeithiol
- Cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am ddyletswyddau penodol mewn lleoliadau ysgol gwahanol
- Esbonio sut y gall ysgolion ddangos eu bod yn bodloni eu gofynion cyfreithiol
- Cefnogi dull ysgol gyfan o greu amgylcheddau bwyd iachach

**Integreiddio**

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth, y strategaethau a'r ymrwymiadau a restrir isod.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae'r asesiad o'r effaith ar hawliau plant drafft yn cynnwys dadansoddiad llawn o effaith y cynigion polisi ar wireddu CCUHP. Mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol gyffredinol ar Hawliau Plant ond gallai fod effaith ar ddehongliad posibl o hawl plentyn i ryddid i ddewis gan y bydd y Rheoliadau yn cyfyngu ar y dewis o fwydydd a gynigir mewn ysgolion.

Bydd y cynigion polisi yn helpu i wireddu'r hawliau yn CCUHP. Mae diwygio'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn gyfle i sicrhau cysondeb â'r canlynol:

- **Erthygl 6** (byw, goroesi a datblygu) Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial. Bydd y cynnig polisi hwn yn sicrhau bod mwy o fwyd iach ar gael i blant, a fydd yn gwella datblygiad plant ac yn eu helpu i wireddu eu potensial yn llawn.
- **Erthygl 24** (iechyd a gwasanaethau iechyd) Mae gan bob plentyn yr hawl i gael yr iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant fel y gall plant aros yn iach. Bydd y cynnig polisi hwn yn sicrhau bod mwy o fwyd maethlon ac addysg ar iechyd a llesiant ar gael i blant.
- **Erthygl 27** (safon byw sy'n ddigonol) Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol a chefnogi ei ddatblygiad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn. Mae'r polisi hwn yn rhan o raglen bwyd mewn ysgolion sy'n sicrhau bod mwy o fwyd ar gael i deuluoedd na allant ei fforddio ac sy'n gwella safon bwyd er mwyn cefnogi datblygiad pob dysgwr ysgol gynradd.

Fodd bynnag, gallai fod hawliau sy'n gwrthdaro os caiff **Erthygl 13** (hawl i ryddid mynegiant) ei dehongli mewn ffordd sy'n ystyried y gallai'r gofynion bwyd newydd gyfyngu ar ddewis plant o ran darpariaethau bwyd penodol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae sicrhau bod y ddarpariaeth bwyd mewn ysgolion cynradd yn adlewyrchu'r argymhellion iechyd diweddaraf yn cynyddu hawliau plant yn hytrach na'u lleihau.

Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR)

Bydd y cynnig polisi hwn yn gweithio tuag at wireddu'r hawliau yn ICESCR sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 11 (3) – Yr hawl i safon byw sy'n ddigonol (Bwyd) ac Erthygl 13 a 14 – Yr hawl i addysg.

Gall y bwyd a'r diodydd a ddarperir mewn ysgolion wneud cyfraniad cadarnhaol at wella iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio, gan helpu i godi safonau dysgu a chyrhaeddiad (Erthygl 11, 13 a 14). Mae cymorth ar gyfer plant sydd o dan anfantais hefyd ar gael drwy amrywiaeth o fentrau bwyd mewn ysgolion. Mae'r rhain yn

cynnwys mentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael â newyn/tlodi drwy brydau ysgol am ddim, brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd a'r cynllun llaeth ysgol am ddim/am bris gostyngol.

At hynny, gall gwerth maethol y bwyd a weinir mewn ysgolion effeithio ar gyrhaeddiad – mae deietau sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr yn debygol o gynyddu risg plentyn o fynd dros bwysau, gan arwain at anghydraddoldebau o ran iechyd a llesiant.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Ceir dadansoddiad llawn o effaith y cynigion polisi ar gydraddoldeb a'r effaith bosibl ar blant â nodweddion gwarchodedig.

Bydd y gwaith o adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach a'r canllawiau cysylltiedig yn cael effaith gadarnhaol ar fwy na 235,000 o ddysgwyr cynradd a fydd yn cael cyfle i gael bwyd iachach a all helpu i ddatblygu arferion bwyta'n iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet gwael. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn a gallai gael mwy o effaith ar blant sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn ordew. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyfleoedd i'r polisi hwn leihau anghydraddoldebau yn dibynnu i raddau helaeth ar nifer y plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai gael effeithiau negyddol anghymesur ar rai grwpiau o ddysgwyr a theuluoedd yn fwy nag eraill, gan gynnwys plant anabl, rhai plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, rhai plant â chredoau crefyddol penodol a phlant sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol os na chaiff eu hanghenion eu hystyried wrth ddatblygu'r polisi a dylunio bwydlenni.

Felly, bydd ein hymgynghoriad yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant â nodweddion gwarchodedig a bydd y Canllawiau yn nodi gofynion cliriach i ysgolion ac awdurdodau lleol ystyried anghenion y dysgwyr hyn y gall fod angen addasu bwydlenni ar eu cyfer oherwydd eu credoau crefyddol neu ddiwylliannol.

At hynny, drwy ddiwygio'r Canllawiau, byddwn yn sicrhau bod rhieni yn glir ynglŷn â hawliau eu plant i gael pryd ysgol os ydynt yn dilyn deiet arbennig neu sydd wedi'i ragnodi'n feddygol, gan gefnogi tegwch ledled Cymru i ddysgwyr a theuluoedd sy'n gwneud cais am addasiadau rhesymol oherwydd anabledd eu plentyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gan atal problemau rhag codi neu waethygu drwy gynnwys pobl a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith clir i gyrff cyhoeddus weithio oddi mewn iddo, gan wneud yn siŵr bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at saith nod llesiant. Nod hyn yw creu Cymru y mae pob un ohonom am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn gyfle i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal a Chymru iachach drwy nodi gofynion ar gyfer prydau ysgol cynhwysol a chytbwys o ran maeth, sicrhau bod dŵr yfed glân ar gael, cryfhau trefniadau i gael prydau ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â chymhwystra yn ddienw, a gwella ffocws dysgwyr ar ymddygiadau bwyta'n iach cadarnhaol.

Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024

Amcan 1 y strategaeth yw lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd drwy leihau costau bwyd. Mae tlodi bwyd yn ymwneud â fforddiadwyedd bwyd a'r gallu i gael gafael arno mewn cymunedau lleol. Gall pobl wynebu ‘premiwm tlodi’ mewn siopau bwyd lleol lle mae prisiau'n uwch, a gallant fod yn gyfyngedig o ran eu gallu i dalu am drafnidiaeth er mwyn cael gafael ar fwyd am brisiau sy'n cynnig gwerth gwell am arian mewn ardaloedd eraill. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cael gafael ar fwyd iach fforddiadwy ac anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn gyfle i ddarparu pryd ysgol iach, gan gefnogi'r teuluoedd hynny na fyddent fel arall yn gallu cynnig manteision deiet maethlon a chytbwys i'w plant.

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae'r mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a enwir i bennu amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant ac adrodd ar y camau a gymerir ganddynt i helpu i gyflawni eu hamcanion. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella bywydau'r plant a'r teuluoedd hynny, gan fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau penodol sy'n gysylltiedig â thlodi.

Pwysau Iach: Cymru Iach

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys Blaenoriaeth Genedlaethol i ddileu rhwystrau er mwyn lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd a deiet ar draws y boblogaeth. Nod y polisi yw sicrhau cymorth amlwg i bob teulu mewn angen ledled Cymru; systemau cyfan yn cydweithio.

Mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn gyfle i ddarparu pryd ysgol cytbwys o ran maeth mewn ysgolion cynradd, gan gefnogi'r teuluoedd hynny na fyddent fel arall yn gallu cynnig manteision deiet maethlon a chytbwys i'w plant gan leihau'r anghydraddoldebau iechyd hynny sy'n gysylltiedig â deiet gwael.

Y Cwricwlwm i Gymru

Nod canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm, y man cychwyn a'r dyhead i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn orfodol yn y Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi strwythur cyfannol i ddeall iechyd a lles, gan feithrin dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng elfennau gwahanol o'r maes hwn, a chydnabod bod iechyd a lles da yn bwysig er mwyn gallu dysgu'n llwyddiannus. Gall y maes hwn o'r cwricwlwm helpu dysgwyr i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a'u helpu i feithrin yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a all eu helpu i ddilyn ffyrdd iach ac egnïol o

fyw. Mae hyn yn cynnwys ymddygiadau hybu iechyd fel maeth, gan gynnwys manteision deiet cytbwys. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o safbwyntiau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar faterion fel dod o hyd i fwydydd maethlon lleol, cynaliadwyedd, a chynllunio a pharatoi prydau maethlon.

Mae hyn yn helpu pob dysgwr i ddeall pwysigrwydd deiet maethlon ac effaith ei ddewisiadau ar ei iechyd a'i lesiant corfforol, ac i ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol ar sail gwybodaeth sy'n gwella ei hunan-werth, ei hwyliau cyffredinol a'i lefelau egni.

Mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn gyfle i gefnogi dibenion y cwricwlwm ymhellach drwy ddarparu bwyd iach a chytbwys o ran maeth i ddysgwyr i'w galluogi i ddysgu. Mae'r Canllawiau diwygiedig ar hybu bwyta ac yfed yn iach yn cefnogi'r uchelgeisiau hyn ymhellach.

**Yr Hirdymor**

Mae diweddaru'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn ffordd effeithiol o wella'r ddarpariaeth ac i ymwreiddio dull ysgol gyfan o gyflawni strategaeth bwyta'n iach hirdymor a gwella cyfleoedd ac ansawdd bywyd plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Ynghyd â darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, mae adolygu'r Rheoliadau yn gyfle unigryw i wella maeth plant, gan sicrhau bod ein dysgwyr ieuengaf yn cael y dechrau gorau posibl, drwy adlewyrchu argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU.

**Atal**

Mae pob plentyn yng Nghymru yn haeddu cyfle teg i fyw bywyd iach sy'n ei alluogi i wireddu ei botensial. Gall opsiynau wedi'u prosesu ac nad ydynt mor iach fod yn rhatach ac yn fwy hygyrch na'r rhai iachach, gan ei gwneud hi'n fwy anodd i deuluoedd prysur gadw at ffordd iach o fyw. Mae plant yn treulio cyfran sylweddol o'u bywydau pob dydd yn yr ysgol ac, felly, mae adolygu'r Rheoliadau yn gyfle i feithrin arferion bwyta'n iach a all bara oes.

At hynny, mae ystyried argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU yn cysoni ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflawni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o greu '*Cymru Iachach'* a *'chymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol'.*

**Cydweithio**

I gefnogi'r gwaith datblygu polisi sydd ei angen i adolygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau, sefydlwyd grwpiau arbenigwyr drwy ddull Gorchwyl a Gorffen gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys ysgolion, cyrff llywodraethu, arlwywyr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, LACA Cymru, deietegwyr, iechyd y cyhoedd, Estyn ac academyddion. Asesodd y grwpiau a yw'r Rheoliadau a'r Canllawiau cyfredol ar gyfer ysgolion cynradd yn addas at y diben gan ystyried tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei fwyta ar hyn o bryd, argymhellion gan y

Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN) ynghyd â'r Canllaw Bwyta'n Iach[2], ochr yn ochr â materion fel fforddiadwyedd ymarferol, y gallu i gyflawni a nifer y plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.

Iechyd oedd y prif sbardun polisi a chanolbwyntiodd y trafodaethau ar anelu at y sefyllfa orau posibl lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ystyriwyd gwastraff bwyd, lleihad yn nifer y plant sy'n dewis cael prydau ysgol ar ddiwrnodau penodol a'r effaith ar hyfywedd y gwasanaeth. Mae'r cynigion a gyflwynwyd wedi'u rhannu ymlaen llaw er mwyn i'r rhai a fydd yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant drwy'r gwaith hwn allu eu hystyried yn iawn.

Safbwyntiau rhanddeiliaid ehangach

Dechreuodd gwaith i ddiwygio'r Rheoliadau Bwyta'n Iach yn 2019 drwy gydnabod bod angen eu diweddaru i adlewyrchu canllawiau gwyddonol diwygiedig a gyhoeddwyd gan SACN. Cafodd y broses ei hatal dros dro yn ystod y pandemig, ac yn ddiweddarach, wrth i awdurdodau lleol weithredu ar yr ymrwymiad i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yng Nghymru.

Er bod dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid wedi croesawu prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gael gohebiaeth yn ymwneud â faint o fwyd sy'n cael ei weini mewn ysgolion a'i ansawdd.

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud gan bartneriaid a rhanddeiliaid yn y maes hwn, gan gynnwys adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Plant a nododd nifer o faterion, gan gynnwys bod rhai dysgwyr hŷn mewn ysgolion cynradd yn mynd adref o'r ysgol yn llwglyd.

O ystyried yr amcanion polisi gwahanol wrth ddiwygio'r rheoliadau, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru weithdy i ddatblygu tybiaethau craidd ac amcanion cyffredin ar ran Llywodraeth Cymru ar 26 Medi 2023. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru o amrywiaeth o feysydd polisi, gan gynnwys addysg, iechyd, adolygu'r diwrnod ysgol, tlodi, a chadwyni cyflenwi bwyd. Roedd cynrychiolwyr allanol hefyd yn bresennol, gan gynnwys Estyn, Synnwyr Bwyd Cymru, Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol (LACA), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Deietegwyr ym maes Iechyd y Cyhoedd.

Roedd y pwyntiau trafod allweddol yn cynnwys:

- yr angen i adolygu'r dull ysgol gyfan a chynnwys rhieni, plant a staff ysgolion er mwyn sicrhau bod agweddau cadarnhaol yn cael eu meithrin tuag at ddeiet cytbwys; a
- model realistig ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n ystyried ymddygiadau bwyta a'r gallu i gyflawni unrhyw newidiadau.

[2] Mae'r Canllaw Bwyta'n Iach yn gynrychioliad gweledol o'r ffordd y gall bwyd a diod gyfrannu at ddeiet cytbwys iach. Mae'n seiliedig ar bum grŵp bwyd ac mae'n dangos faint o'r hyn rydych yn ei fwyta ddylai ddod o bob grŵp bwyd.

Y cyfnod cyn ymgynghori

Fel rhan o weithgarwch ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol a CLILC, gofynnwyd i swyddogion ganiatáu cyfnod o brofi a/neu fyfyrio cyn y broses ymgynghori gyhoeddus, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol wedi cael cyfle i ddeall effaith unrhyw gynigion ar ddichonoldeb, hyfywedd a chost y ddarpariaeth yn llawn. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i gam profi cyn ymgynghori. Mae swyddogion wedi ymgysylltu'n barhaus ag awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n darparu eu gwasanaeth arlwyo eu hunain, ac wedi addasu cynigion i adlewyrchu unrhyw adborth cychwynnol, yn enwedig egluro unrhyw gynigion neu gyfarwyddyd a oedd yn llesteirio'r gallu i brofi neu ystyried y cynigion yn ddigon manwl. Ymgysylltwyd ymhellach â phlant a phobl ifanc, deietegwyr ym maes iechyd y cyhoedd, cyflenwyr, a chydgysylltwyr ysgolion iach.

**Cynnwys**

Er mwyn helpu i ddatblygu'r cynigion polisi, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru ag amrywiaeth o randdeiliaid, a oedd yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), arlwywyr awdurdodau lleol, LACA Cymru – the school food people, llywodraethwyr ysgolion, plant ysgol, awdurdodau lleol, Estyn, Iechyd Cyhoeddus Cymru, cydweithwyr mewnol yn Llywodraeth Cymru ym maes iechyd ac addysg, a sefydliadau yn y trydydd sector fel Plant yng Nghymru.

Mae awdurdodau lleol wedi ymwneud yn helaeth â'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion cynradd a chynhaliwyd cam profi cyn ymgynghori er mwyn mireinio'r cynigion ymhellach cyn drafftio'r Rheoliadau a fydd yn destun ymgynghoriad. Bydd y cam profi hwn hefyd yn cefnogi'r ymatebion a ddarperir ganddynt drwy'r ymgynghoriad.

**Effaith**

Effaith ar ddysgwyr a theuluoedd

Rhoddwyd y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) cyfredol ar waith yn 2013 a chyhoeddwyd y canllawiau statudol ategol ym mis Mehefin 2014. Mae llawer wedi newid ers hynny o ran ymchwil a chanllawiau gwyddonol a deietegol.

Cyflwynwyd rhaglen Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru yn llawn ym mis Medi 2024. Mae buddsoddiad sylweddol yn yr ymrwymiad hwn yn golygu bod miloedd yn fwy o blant ysgol gynradd yng Nghymru yn bwyta prydau ysgol. Mae'n ymyriad gweddnewidiol o ran plant yn mynd heb fwyd a thlodi, addysg ac iechyd plant, sy'n cael effaith yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gan gadw arian y mae angen dybryd amdano ym mhocedi teuluoedd.

Mae ysgolion yn amgylcheddau lle mae plant yn bwyta hyd at hanner eu gofynion deietegol dyddiol (e.e. brecwast a chinio). Mae diweddaru'r Rheoliadau yn ffordd effeithiol o godi safonau'r ddarpariaeth ledled Cymru, a bydd y canllawiau statudol

cysylltiedig yn rhoi pwys ar y gofyniad i ddarparu pryd ysgol cytbwys o ran maeth, sy'n seiliedig ar argymhellion deietegol diweddaraf Llywodraeth y DU.

Yn ôl Adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r argyfwng costau byw presennol yn golygu bod mwy o deuluoedd a phlant yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd fforddio gwresogi eu cartrefi neu fwyta digon o fwyd iach. Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd plant yn datblygu cyflyrau iechyd fel asthma, a gall diffyg bwyd iach effeithio ar allu'r plant dan sylw i ganolbwyntio yn yr ysgol. Nid yn unig y mae hyn yn niweidio iechyd a llesiant plant nawr, ond bydd hefyd yn effeithio ar eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol, a allai olygu y byddant yn byw ym magl tlodi.

Mae'r gwaith hwn yn gyfle i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy gynnig pryd ysgol cytbwys o ran maeth i ddysgwyr oed cynradd, gan gefnogi'r teuluoedd hynny na fyddent fel arall yn gallu cynnig manteision deiet maethlon a chytbwys i'w plant. Bydd y canllawiau diwygiedig hefyd yn sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion mewn sefyllfa well i fodloni eu gofynion o dan y Ddyletswydd, gan roi cymorth i arweinwyr ysgolion ac ysgogi diwylliant lle mae bwyta'n iach yn treiddio drwy'r ysgol gyfan.  Gall ymddygiadau bwyta'n iach ymhlith dysgwyr hefyd helpu i leihau'r anghydraddoldebau o ran iechyd a chyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â deiet gwael, gan wella cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyfleoedd i'r polisi hwn leihau anghydraddoldebau yn dibynnu i raddau helaeth ar nifer y plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i ddeall ymddygiadau a allai effeithio ar y ddarpariaeth yn well ac i nodi rhwystrau a chyfleoedd ar lefel leol, er mwyn helpu i'w rhoi ar waith yn effeithiol ac yn deg a lliniaru anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu nodi.

Mae adroddiadau bod rhai plant yn dweud eu bod yn teimlo'n llwglyd ar ôl cael cinio ysgol. Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn cyflwyno meintiau dognau lleiaf a mwyaf ar gyfer darpariaethau penodol. Byddwn yn sicrhau nad oes terfyn uchaf ar y bwyd rydym am ei annog, fel ffrwythau, llysiau a bara sy'n cynnwys o leiaf 50% o rawn cyflawn i ddigoni'r rhai sydd â mwy o awydd bwyd, ac yn cyfyngu ar fwydydd sy'n cynnwys siwgr a braster dirlawn sy'n cynyddu'r risg o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet.

Gellid ystyried bod cyfyngu ar ddarpariaethau penodol yn y Rheoliadau diwygiedig ar gyfer ysgolion cynradd yn cyfyngu ar ryddid plant i ddewis, ac y gallai hynny olygu bod mwy o blant yn mynd heb fwyd os na fyddant yn bwyta'r hyn a gynigir.  Gallai hyn gael effaith benodol ar blant sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a all fod yn fwy dibynnol ar y pryd yn yr ysgol.

<u>Effaith ar bartneriaid cyflawni</u>

Mae awdurdodau lleol wedi ymwneud yn helaeth â'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau diwygiedig ar gyfer ysgolion cynradd, a chynhaliwyd cam profi a myfyrio cyn ymgynghori er mwyn ystyried y cynigion a'u mireinio ymhellach cyn drafftio'r Rheoliadau diwygiedig hyn. Gallai'r cynigion fod yn anodd i rai partneriaid eu cyflawni i ddechrau, ond yn gyffredinol, ymddengys bod modd eu cyflawni yn dilyn adborth gan ein Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Gallai'r gwaith o adolygu'r Rheoliadau gynnig mwy o gyfleoedd i gymunedau gwledig drwy annog mwy o gynnyrch lleol cynaliadwy, cysylltu â'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a manteisio ar y gadwyn gyflenwi leol o'r pridd i'r plât. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r darpariaethau hefyd gael effaith negyddol ar amaethyddiaeth a busnesau bwyd sy'n cyflenwi'r bwydydd rydym am gyfyngu arnynt mewn prydau ysgol.  Byddwn yn parhau i weithio gyda chynhyrchwyr i addasu eu cynhyrchion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a nodi cyfleoedd newydd i ddatblygu cynhyrchion penodol ar gyfer prydau ysgol. Rydym am ddeall yr effeithiau posibl yn well drwy ymgynghori.

Gall Partneriaethau Bwyd Lleol, sydd bellach wedi'u sefydlu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gydgysylltu prosiectau bwyd lleol mewn modd strategol a chreu cyfleoedd cyflenwi newydd drwy gysylltu rhanddeiliaid bwyd lleol. Bydd cysylltu ffermwyr â sefydliadau ehangach ar hyd y gadwyn gyflenwi yn ategu amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er enghraifft, mae'r cynnydd mewn ffrwythau a llysiau mewn ysgolion cynradd yn gyfle i gynyddu gweithgarwch cynhyrchu lleol. Mae parhau i weithio gyda'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru i ddatblygu cyfleoedd newydd i gynyddu cyflenwadau lleol yn hanfodol.

Mae lleihau gwastraff bwyd yn rhan allweddol o'n newid i economi gylchol. Mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion cynradd yn gyfle i weithio gyda'n sector cynhyrchu bwyd i annog cynaliadwyedd a chwtogi cadwyni cyflenwi er mwyn lleihau allyriadau defnydd. At hynny, gall y newidiadau i feintiau dognau helpu i leihau gwastraff bwyd. Fodd bynnag, gall y newidiadau i grwpiau bwyd arwain at rywfaint o wastraff bwyd ychwanegol, i ddechrau o leiaf.

Yn anecdotaidd, gwyddom y gall fod rhai heriau i awdurdodau gwledig a all fod yn anos eu goresgyn o gymharu ag awdurdodau dinesig, oherwydd eu daearyddiaeth a'u dwysedd poblogaeth – er enghraifft, cyflenwi bwyd, cludo, a rhannu cyfleusterau coginio a storio. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i ystyried yr effeithiau ar awdurdodau gwledig ymhellach fel rhan o'r broses o roi'r Rheoliadau a'r Canllawiau diwygiedig ar waith a'u monitro. Ein gobaith yw meithrin dealltwriaeth well o unrhyw faterion canfyddedig drwy ymgynghori.

### Costau ac arbedion

Mae gan arlwywyr awdurdodau lleol brofiad helaeth o ddatblygu bwydlenni, ac mae'r Rheoliadau Bwyd mewn Ysgolion yn rhoi hyblygrwydd i arlwywyr gynnwys llawer iawn o ddewis wrth ddylunio bwydlenni. Mae hyn yn golygu, er y bydd costau bwydydd yn parhau i gael eu hystyried wrth ddylunio bwydlenni, y gellir cyfnewid eitemau am rai eraill os bydd costau yn afresymol.

Mae profion cyn-ymgynghori cychwynnol o'r Rheoliadau ar gyfer ysgolion cynradd gan awdurdodau lleol wedi awgrymu y gallai fod cynnydd mewn costau prydau, ond prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd arbedion hefyd, gan gynnwys drwy ddognau llai i ddisgyblion iau. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus, a byddwn yn ystyried yr adborth a roddir drwy'r ymgynghoriad.

**Dull**

Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu gofynion mewn perthynas â bwyd a diod a ddarperir ar safle unrhyw ysgol a gynhelir neu fwyd a diod a ddarperir mewn man ar wahân i safle ysgol gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir i unrhyw ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Gwnaed Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 o dan y pŵer hwn. Mae'r rhain yn gymwys i leoliadau meithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir, ac maent yn cynnwys gofynion o ran bwyd a maeth.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i bob ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru. Bydd y diffiniad o 'ysgol gynradd' yr un peth â'r diffiniad yn y Rheoliadau cyfredol, sef ysgol sy'n darparu addysg gynradd (p'un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio).

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddeall y gofynion deddfwriaethol a nodir yn y Rheoliadau, bydd y Canllawiau yn rhoi manylion pellach. Caiff yr holl newidiadau a wneir yn y Rheoliadau a'u nodau polisi eu hadlewyrchu yn y Canllawiau, y bwriadwn eu cyhoeddi pan gaiff y Rheoliadau diwygiedig eu gosod.

# ADRAN 8 CASGLIAD

**Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o fod wedi effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Rydym eisoes wedi ymgynghori â staff arlwyo ysgolion mewn awdurdodau lleol ar ofynion y Rheoliadau diwygiedig ac wedi eu cynnwys wrth gynghori ar y newidiadau sydd eu hangen i fwydlenni. Rydym hefyd wedi ymgynghori'n helaeth â llywodraethwyr ysgolion yn ystod y cam cyn ymgynghori. Caiff safbwyntiau plant a rhieni eu casglu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, a byddant yn llywio unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Y brif effaith sylweddol fyddai bod plant yn cael bwyd iachach, ond gallai hyn olygu bod llai o opsiynau bwyd y maent wedi arfer â nhw, fel cynhyrchion cig wedi'i brosesu, a allai olygu bod llai o blant yn dewis cael prydau ysgol ar ddiwrnodau penodol i ddechrau. Fodd bynnag, disgwylir y bydd plant yn cael blas ar fwyd mwy maethlon dros amser, a allai eu hannog i wneud dewisiadau bwyta'n iach am weddill eu hoes. Bydd hyn yn helpu i greu poblogaeth iachach ac yn lleihau'r baich ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Gallai bwyd mwy maethlon mewn ysgolion helpu i leihau'r risg o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet fel gordewdra, canser, clefyd coronaidd y galon a diabetes, a allai arwain at fwy o gostau i'r GIG yng Nghymru dros amser.

Mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion cynradd yn cynnwys newidiadau i feintiau dognau a all helpu i leihau gwastraff bwyd, ond gall newidiadau yn y grwpiau bwyd a gynigir arwain at rywfaint o wastraff bwyd ychwanegol, i ddechrau o leiaf.

Rydym yn rhagweld y caiff rhagor o adborth ei gasglu ar yr effeithiau posibl drwy'r broses ymgynghori ffurfiol ac y caiff yr adborth hwn ei ystyried cyn gwneud diwygiadau pellach i'r cynigion fel y bo'n briodol.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Yn dilyn penderfyniad terfynol ynghylch y polisi o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gwneud y rheoliadau newydd, caiff dulliau gwerthuso eu hystyried a byddant yn hanfodol i fesur effaith y polisi newydd hwn.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd yn bodoli y gellir eu defnyddio i helpu i fonitro a gwerthuso unrhyw newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys setiau data a dangosyddion sy'n bodoli eisoes ar addysg ac iechyd y gellir eu cymharu dros amser, y gwerthusiad annibynnol o'r ymrwymiad i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, data ar gaffael cyhoeddus, dealltwriaeth o'r farchnad, ymgysylltu a gwrando cymdeithasol.